

Cynnwys

Rhagair ar y cyd gan y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog
Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Trosolwg a chyd-destun strategol	1
2. Gweledigaeth a blaenoriaethau allweddol	3
3. Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma	3
4. Gwasanaethau gofal llygaid yn 2018	5
5. Themâu allweddol	7
• Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen i gael profion golwg rheolaidd.	
• Darganfod problemau golwg ac iechyd llygaid yn gynnar.	
• Darparu mynediad at wasanaethau a chymorth integredig o'r radd flaenaf.	
- Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol	
- Gwasanaethau ysbyty arbenigol	
- Cefnogi pobl â nam ar eu golwg/nam ar ddau synnwyr	
6. Gwneud i hyn ddigwydd	28
7. Cyfeiriadau	30

Rhagair ar y cyd

Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwenda Thomas AC, Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gwella gwasanaethau i bobl ag afiechyd y llygaid a phobl sydd wedi colli eu golwg wedi bod ar frig yr agenda yng Nghymru ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. O ganlyniad, mae Cymru wedi meithrin enw da am ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal iechyd y llygaid. Ac eto, hyd yn oed heddiw, mae amcangyfrifon yn awgrymu y gellid bod wedi osgoi hanner o'r achosion o golli golwg yn llwyr.

Dyna pam mae'r cynllun hwn yn bwysig. Mae'n ymrwymo Llywodraeth Cymru, unwaith eto, i wella iechyd y llygaid a sicrhau bod gofal a chymorth o'r radd flaenaf ar gael i bobl ag afiechyd y llygaid a phobl sydd wedi colli eu golwg. Rydym angen sicrhau bod mwy o bobl yn cael profion llygaid rheolaidd a bod problemau iechyd y llygaid yn cael eu canfod yn gynnar. Dylai pobl wybod ble mae gwasanaethau, gofal a chymorth ar gael yn eu hardal leol a bod yn ffyddiog y cânt eu gweld yn gyflym gan y gwasanaethau a chael cymorth fel bo'r angen.

Mae'r Cynllun Cyflawni Gofal Iechyd Llygaid hwn yn nodi amrywiol gamau allweddol i wella iechyd llygaid holl blant ac oedolion Cymru, gyda chymorth penodol sy'n targedu'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o gael problemau iechyd llygaid a cholli eu golwg. Mae'r

Cynllun yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Leol weithio gyda'r Trydydd Sector a phartneriaid eraill i gynllunio, cydgysylltu a darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw yn eu cymunedau lleol. RYDYM yn ffyddiog bod gennym y seilwaith a'r gweithlu hynod fedrus ac ymroddgar sy'n gallu darparu sylfaen gref ar gyfer y camau nesaf ymlaen er mwyn sicrhau gwasanaethau, gofal a chymorth o'r radd flaenaf ar gyfer gofal iechyd llygaid pobl Cymru.

.

1. Trosolwg a chyd-destun strategol

Mae *Law yn Llaw at Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau'r iechyd a'r lles gorau i bawb yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gofal Iechyd Llygaid yn cefnogi'r uchelgais hon ac yn amlinellu rhaglen waith i helpu i wella iechyd llygaid a sicrhau bod gofal a chymorth o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl hynny ag iechyd llygaid gwael a'r rhai sy'n colli eu golwg.

Mae gan Gymru enw da am ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal iechyd llygaid. Mae *Strategaeth Golwg y DU* a datblygiad *Cynllun Gweithredu Strategaeth Golwg Cymru* wedi darparu sylfaen ar gyfer trafod datblygiad gwasanaethau a chymorth gyda rhanddeiliaid yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gofal Iechyd Llygaid hwn yn ymgorffori rhai o'r blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol a welir yn *Strategaeth Golwg y DU 2013-2018*.

Diben y Cynllun Gofal Iechyd Llygaid yw adeiladu ar y cynnydd hwn er mwyn sicrhau gwasanaethau, gofal a chymorth o'r radd flaenaf i bobl ledled Cymru. Cyflawnir hyn trwy ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a mwy o gydweithredu o fewn y sector iechyd, rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a chyda llywodraeth leol a'r trydydd sector.

Mae iechyd llygaid gwael yn broblem gyffredin a chynyddol yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae bron i

100,000 o bobl yng Nghymru yn byw gydag effeithiau colli eu golwg. Rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu 22% erbyn 2020, ac y bydd wedi dyblu erbyn 2050 (1). Mae'r cynnydd sylweddol hwn yn nifer y bobl â phroblemau iechyd llygaid yn gysylltiedig â'r boblogaeth sy'n heneiddio, gan fod tua 75 y cant o'r achosion o golli golwg yn digwydd ymhlith pobl 65 oed neu hŷn (2). Wrth i'r boblogaeth heneiddio, bydd mynychder achosion sylfaenol allweddol colli golwg yn cynyddu, felly bydd problemau iechyd llygaid a cholli golwg yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y dyfodol.

Gellid atal 50% o achosion o golli golwg drwy ganfod problemau ac ymyrryd yn gynnar (3). Mae canfod problemau'n gynnar yn hanfodol gan fod colli golwg yn cael effaith fawr ar les. Mae pobl hŷn sydd â golwg gwan (4, 5) dros ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef iselder a chwympo na'u cyfoedion sydd â golwg arferol. Mae colli golwg hefyd yn ffactor sy'n gallu arwain at unigrwydd ac arwahanrwydd.

Felly, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Leol gydweithio â'r Trydydd Sector a phartneriaid eraill i gynllunio, cydgysylltu a darparu gwasanaethau, gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cymunedau lleol. Mae'n amlinellu ystod o gamau allweddol i wella iechyd llygaid holl blant ac oedolion Cymru, gyda chymorth penodol a dargedir ar gyfer y rhai sydd fwyaf agored i broblemau iechyd llygaid a cholli golwg.

2. Gweledigaeth a blaenoriaethau allweddol

Ein gweledigaeth yw datblygu gwasanaethau integredig o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn gwella iechyd llygaid pobl sy'n byw yng Nghymru, fel y gallant gael gwell golwg ar hyd eu bywyd. O ran pobl sy'n datblygu nam ar y golwg rydym am sicrhau eu bod yn cael gofal, cymorth a gwasanaeth adsefydlu priodol.

Ein blaenoriaethau allweddol yw:

- Atal colli golwg a gwella iechyd llygaid.
- Canfod problemau golwg ac iechyd llygaid gwael yn gynnar.
- Darparu gwasanaethau effeithlon a hygyrch o'r radd flaenaf.
- Sicrhau gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar y claf.
- Darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda nam ar eu golwg/nam ar ddau synnwyr.

3. Yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma

Er mai hwn yw'r Cynllun Gofal Iechyd Llygaid cyntaf i Gymru, mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi bod yn rhagweithiol ym maes datblygu gwasanaethau gofal iechyd llygaid ac mae llawer wedi'i gyflawni eisoes. Yn 2002, lanswyd Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru (WECS), gyda'r nod o leihau dallineb trwy ddarganfod afiechyd y llygaid yn gynnar a darparu cymorth i'r rhai sydd â golwg gwan neu'r rhai nad yw eu golwg yn debygol o wella. O ganlyniad:

- ✓ Mae datblygiadau wedi galluogi optometryddion i reoli dwy ran o dair o broblemau llygaid cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol yn y gymuned, lle byddai wedi bod yn angenrheidiol eu hatgyfeirio at wasanaethau ysbyty o'r blaen.
- ✓ Mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (LVSW) bellach yn darparu gwasanaeth adsefydlu i bobl sy'n colli eu golwg. Mae wedi'i leoli mewn dros 180 o bractisau optometreg yng Nghymru, mae'r amseroedd aros yn llai na phythefnos a dangoswyd ei fod yr un mor effeithiol o ran lleihau anabledd â'r 19 o wasanaethau a oedd yn gweithredu mewn ysbytai wyth mlynedd yn ôl.
- ✓ Mae pob unigolyn yng Nghymru sydd â diabetes ac sy'n gymwys yn cael ei alw i Wasanaeth Sgrinio ar gyfer Retinopathi Diabetig Cymru (DRSSW)
- ✓ Mae archwiliadau iechyd llygaid estynedig ar gael yn y rhan fwyaf o bractisau optometreg i'r rhai sydd â risg uchel o ddatblygu afiechyd y llygaid megis pobl o leiafrif ethnig neu'r rhai sydd â hanes teuluol o glawcoma.

Cefnogir WECS gan 'Canolbwyntio ar Offthalmoleg' (FOO) a lansiwyd yn 2009. Y nod yw sicrhau bod llwybrau gofal cleifion ar gyfer gofal heb ei drefnu, glawcoma a dirywiad macwlaidd yn fwy effeithlon ac yn canolbwyntio mwy ar gleifion. Mae'n annog gwell cydweithredu rhwng gweithwyr gofal sylfaenol a gofal eilaidd proffesiynol er mwyn gwella prosesau canfod, trin

a gofal parhaus i gleifion. Wrth wraidd y fenter hon mae datblygu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (ODTCs) ym mhob Bwrdd Iechyd. Mae ODTCs yn gyfleusterau lle gall cleifion dethol gael eu gweld a'u rheoli gan staff anfeddygol, gydag offthalmolegydd yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ansawdd, gyda mynediad at gofnod electronig am gleifion, mewn amgylchedd clinig rhithwir.

4. Gwasanaethau cymorth a gofal llygaid yn 2018?

Er mwyn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein gweledigaeth, rydym am weld y canlynol erbyn 2018:

CANLYNIADAU

- ✓ Mwy o bobl yn cael profion golwg rheolaidd.
- ✓ Mwy o wybodaeth am leihau'r perygl o ddatblygu afiechyd y llygaid, yr hyn y gall pobl ei wneud drostynt eu hunain a pha wasanaethau y gellir eu disgwyl.
- ✓ Mwy o bobl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd llygaid.
- ✓ Mwy o bractisau optometreg yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau gofal llygaid estynedig yn y gymuned.
- ✓ Mwy o bobl yn ymwybodol o'r pwynt mwyaf priodol i gael mynediad i wasanaethau gofal llygaid os oes ganddynt broblem sydd angen sylw brys.

- ✓ Llai o anghydraddoldeb mewn perthynas â mynediad at wasanaethau optometreg.
- ✓ Mwy o bobl â risg uchel o ddatblygu afiechyd y llygaid yn cael mynediad at wasanaethau gofal llygaid yn y gymuned, gan gynnwys pobl â diabetes, pobl â hanes o glawcoma yn eu teulu a phobl o leiafrifoedd ethnig.
- ✓ Mwy o bobl mewn gofal preswyl yn cael profion golwg rheolaidd.
- ✓ Mwy o blant mewn ysgolion arbennig yn cael profion golwg yn yr ysgol.
- ✓ Mwy o blant yn cael eu golwg wedi'i sgrinio wrth ddechrau mewn ysgol.
- ✓ Pobl yn cael eu gweld mewn safle sylfaenol neu gymunedol, lle mae'n glinigol briodol.
- ✓ Pobl yn cael mynediad priodol at ofal a rheolaeth barhaus mewn perthynas â'u llygaid.
- ✓ Defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr yn cyfrannu at gynllunio gwasanaethau a phobl yn mynegi eu barn yn rheolaidd, a'r farn honno'n cael ei defnyddio i sicrhau gwelliannau parhaus.
- ✓ Pobl yn fodlon â'r gofal a gânt yn eu practis optometreg lleol.
- ✓ Pobl yn fodlon â'r gofal a gânt gan wasanaeth llygaid ysbyty.
- ✓ Pobl yn fodlon â'r gofal a gânt gan wasanaethau cymdeithasol.
- ✓ Pobl â nam ar eu golwg yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu holl anghenion – yn gorfforol ac yn emosiynol.

- ✓ Gofal llygaid lleol, gofal llygaid ysbyty a gwasanaethau cymorth yn gydgysylltiedig.
- ✓ Pobl â nam ar eu golwg yn cael cynnig hyfforddiant arbenigol sy'n eu galluogi i fyw a mynd o gwmpas yn annibynnol.

Mesurir hyn trwy setiau data cenedlaethol, archwiliadau, arolygon a gwelliannau i wasanaethau. Er enghraifft, mae'r data am y profion golwg y mae'r GIG yn talu amdanynt, yn deillio o broses taliadau gwasanaethau offthalmig a weinyddir gan Ganolfan Gydwasanaethau GIG Cymru. Mae Arolwg Iechyd Cymru yn cynnwys cwestiynau am anawsterau gweld a defnydd y cyhoedd o optometryddion.

5. Themâu allweddol

Mae'r Cynllun Gofal Iechyd Llygaid wedi'i strwythuro o amgylch 3 thema allweddol, sef:

- Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen i gael profion golwg rheolaidd.
- Darganfod problemau golwg ac iechyd llygaid yn gynnar – gan dargedu pobl mewn perygl.
- Darparu mynediad at wasanaethau a chymorth integredig o'r radd flaenaf.
 - Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol.
 - Gwasanaethau ysbyty arbenigol.
 - Cefnogi pobl â nam ar eu golwg/nam ar ddau synnwyr.

Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid a'r angen i gael profion golwg rheolaidd

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn osgoi mynd am brawf golwg yn rheolaidd. Mae profion golwg yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu gweld mor glir â phosibl – gan ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd os bydd angen. Maent hefyd yn gyfle i brofi am afiechyd y llygaid, gan sicrhau bod iechyd llygaid gwael yn cael ei atal neu ei ganfod yn gynnar er mwyn lleihau'r effaith.

Bydd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd llygaid a'r angen i ddefnyddio gwasanaethau gofal llygaid yn hanfodol er mwyn atal colli golwg a gwella iechyd llygaid. Felly, byddwn yn datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd am iechyd llygaid er mwyn annog pobl i gael profion golwg yn rheolaidd.

Rydym yn gwybod bod ysmegu a chyflyrau iechyd eraill yn cynyddu'r perygl o ddallineb, felly bydd hi hefyd yn bwysig cysylltu'r nod o sicrhau iechyd llygaid da gyda'r ymgyrchoedd rhoi'r gorau i ysmegu a bwyta'n iach. Bydd gan optometryddion gyfraniad i'w wneud at hyn.

Bydd angen gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau traddodiadol, gyda gweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol proffesiynol, athrawon, nyrsys ysgol, y Trydydd Sector, Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Byrddau Iechyd i gyd yn cydweithio.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a gweithwyr gofal llygaid proffesiynol i ddatblygu strategaeth addysg gyhoeddus a hybu iechyd llygaid ar gyfer y cyhoedd, grwpiau sy'n wynebu risg a phlant.
- Gweithio gydag athrawon, nyrsys ysgol, orthoptwyr, optometryddion ac ymwelwyr iechyd i addysgu plant a rhieni ynglŷn â phwysigrwydd profion golwg.
- Codi ymwybyddiaeth o iechyd llygaid ymhlith gweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol proffesiynol (fferyllwyr, nyrsys practis, meddygon teulu, gweithwyr gofal cartref ac ymwelwyr iechyd).
- Sicrhau bod yr Archwiliad Iechyd i bobl dros 50 oed yn tynnu sylw at bwysigrwydd profion golwg.
- Gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau bod pwysigrwydd gofal llygaid o'r radd flaenaf yn cael ei hyrwyddo mewn gofal preswyl.
- Gweithio gydag optometryddion i ledaenu negeseuon iechyd cyffredinol megis rhoi'r gorau i ysmegu.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Gweithio gyda'r Cynghorwyr Optometreg Rhanbarthol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, DRSSW, Optometryddion, Optegwyr Cyflenwi, Orthoptwyr, Fferyllwyr, Meddygon Teulu a'r Trydydd Sector i hyrwyddo pwysigrwydd gofal iechyd llygaid.
- Sicrhau bod demograffeg ac ystadegau iechyd llygaid yn cael eu cynnwys fel mater o drefn mewn Asesiadau o Anghenion y GIG ac adroddiadau Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer pob Bwrdd Iechyd.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

- Ymroi i chwilio am gyfleoedd i gysylltu iechyd y llygaid ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd eraill fel Diabetes, ysmegu a chwympiadau.
- Nodi cymorth Iechyd Cyhoeddus arbenigol i gynghori ar faterion Gofal Llygaid.

Bydd y Trydydd Sector yn:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o Iechyd Llygaid a'r angen i gael profion golwg rheolaidd.

Darganfod problemau golwg ac iechyd llygaid gwael yn gynnar – gan dargedu pobl mewn perygl

Mae adroddiad diweddar wedi amlygu materion o ran darparu'r gofal iechyd llygaid sydd ei angen ar bobl ifanc mewn ysgolion arbennig. Mae hyn yn destun pryder gan fod mynychder nam ar y golwg ymhlith pobl ifanc mewn ysgolion arbennig yn uchel iawn o gymharu â chyfartaledd y boblogaeth. Felly, bydd gwasanaeth yn cael ei ddatblygu i alluogi pob plentyn mewn ysgol arbennig yng Nghymru i gael cynnig prawf golwg blynyddol yn yr ysgol. Mae plant mewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru'n cael eu golwg wedi'i sgrinio pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ym mhob rhan o Gymru, a dylai hyn fod yn unol â Chanllawiau'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol i sicrhau bod y gwaith sgrinio'n cael ei gyflawni trwy wasanaethau orthoptig. Bydd hi'n bwysig sicrhau bod y sgrinio'n effeithiol a bod llawer yn ei ddefnyddio.

Mae pobl mewn gofal preswyl â risg uchel o ddatblygu problemau golwg, a dylid sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar ofal llygaid o'r radd flaenaf. Felly, dylid cynnwys archwiliadau rheolaidd yng nghynlluniau gofal personol unigolion.

Nid yw llawer o afiechydon y llygaid sy'n bygwth y golwg, megis retinopatheg diabetig a glawcoma, yn dangos unrhyw symptomau yn y dyddiau cynnar. Yng Nghymru, mae gennym raglen sgrinio'r DRSSW, sy'n ceisio canfod retinopatheg diabetig sy'n bygwth y golwg

yn gynnar. Mae gennym hefyd yr Archwiliadau Iechyd Llygaid yng Nghymru (EHEW), sy'n darparu archwiliad iechyd llygaid estynedig ar gyfer pobl â risg uchel o ddatblygu afiechyd y llygaid. Mae'n hollbwysig bod pobl sydd mewn perygl o ddatblygu'r afiechydon hyn yn ymwybodol o'r gwasanaethau sgrinio ac archwilio sydd ar gael, a'u bod yn manteisio ar y gwasanaethau hyn yn rheolaidd.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Weithio gyda Byrddau Iechyd, ysgolion arbennig, nyrsys ac optometryddion i ddatblygu gwasanaeth i sicrhau bod plant mewn ysgolion arbennig yn cael cynnig prawf golwg blynyddol yn yr ysgol.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd a'r proffesiwn i annog optometryddion i gael eu hachredu i ddarparu EHEW.
- Datblygu sicrwydd ansawdd allanol cenedlaethol ar gyfer sgrinio golwg mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys monitro'r defnydd a chanlyniadau a safonau'r hyfforddiant ar gyfer nyrsys a chynorthwyr.
- Darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr gofal sylfaenol a chymunedol proffesiynol (fferyllwyr, nyrsys practis, meddygon teulu, gweithwyr gofal cartref ac ymwelwyr iechyd) o

gymhwysedd a llwybrau atgyfeirio'r EHEW a'r DRSSW.

- Gweithio gydag AGGCC a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio i ddarpariaeth gofal llygaid mewn gofal preswyl a sicrhau bod profion golwg rheolaidd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gofal personol preswylwyr.
- Sicrhau bob pobl ar incwm isel yn gallu cael gafael ar dalebau optegol y GIG ar gyfer sbectol a/neu lensys cyffwrdd.
- Gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Chynghorwyr Optometreg i archwilio'r defnydd o'r EHEW gan grwpiau risg uchel.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Gweithio gyda'r arweinydd orthoptig ar gyfer sgrinio golwg plant er mwyn gwella ansawdd sgrinio plant – gan gynnwys adolygu hyfforddiant, cyfarpar a monitro yn unol â safonau cenedlaethol.
- Gweithio gyda'r Cynghorwyr Optometreg Rhanbarthol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, DRSSW, Optometryddion, Fferyllwyr, Meddygon Teulu a'r trydydd sector i hyrwyddo'r EHEW a'r DRSSW, yn enwedig ymhlith grwpiau risg uchel.

Darparu mynediad i wasanaethau a chymorth integredig o'r radd flaenaf

Rydym am sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd llygaid yn diwallu anghenion cleifion ac yn cael eu darparu i'r safon uchaf bosibl. Rydym angen gwaith ymgysylltu clinigol cryf, gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn arwain y gwaith o wella ansawdd gwasanaethau a'r driniaeth a ddarperir. Mae gan y cyhoedd gyfraniad allweddol i'w wneud o ran gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Er mwyn sicrhau bod ansawdd yn rhan annatod o bob gwasanaeth, byddwn yn datblygu agwedd genedlaethol ar gyfer Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) a Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion (PREMs).

Un rhan allweddol o Gynllun Gofal Iechyd Llygaid Cymru yw'r gwaith o gysylltu pob rhan o'r Gwasanaethau Llygaid trwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Bydd TGCh yn gymorth hanfodol er mwyn gwella prosesau integreiddio, cael gafael ar wybodaeth a rhannu gwybodaeth. Mae atgyfeiriadau electronig rhwng optometryddion a gofal eilaidd wedi'u treialu. Mae gwaith hefyd yn parhau ar Gofnodion Electronig am Gleifion (EPRs), sy'n rhan allweddol o ddatblygiad ODTCs. Y llwybr glawcoma fydd y cyntaf i ddefnyddio EPR ond y bwriad yw ymestyn y gwasanaeth i'r holl lwybrau gofal llygaid eraill dros y blynyddoedd nesaf, ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn gweithio'n agos gyda chlinigwyr er mwyn gwireddu hyn.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Weithio gyda Byrddau Iechyd, clinigwyr a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ddatblygu atgyfeiriadau electronig a chofnodion cleifion electronig ar gyfer gofal llygaid.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid i sicrhau bod addysg a hyfforddiant ar gael i gefnogi datblygiadau mewn gofal llygaid.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Gweithio gyda Grwpiau Cyswllt Gofal Llygaid i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu monitro a'u hadolygu gyda chlinigwyr o ofal sylfaenol ac eilaidd.
 - Adolygu a datblygu cynlluniau ar gyfer y gweithlu er mwyn darparu ffyrdd newydd o weithio.
 - Datblygu a chreu systemau ar gyfer defnyddio mesurau canlyniadau a phrofiad cleifion mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

Mae'n hollbwysig bod pobl yn gallu cael mynediad amserol at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen

arnynt, a'n nod yw darparu mwy o wasanaethau a gofal yn agosach at y cartref. Mae gan optometryddion gofal sylfaenol (optegwyr) y gallu, y sgiliau a'r cyfarpar i reoli mwy o gleifion yn y gymuned leol, lle mae hynny'n glinigol briodol.

Mae'r EHEW wedi galluogi optometryddion i gynnal archwiliadau estynedig ar y bobl hynny â risg uchel o ddatblygu afiechyd y llygaid a rheoli mân achosion aciwt mewn gofal sylfaenol. Efallai y bydd modd sicrhau gostyngiadau pellach yn nifer yr atgyfeiriadau o ofal sylfaenol i ofal eilaidd trwy sicrhau bod optometryddion, fferyllwyr, meddygon teulu ac aelodau staff gofal sylfaenol eraill yn cydweithio'n agosach, gan atgyfeirio cleifion yn briodol a rheoli mân anhwylderau mewn gofal sylfaenol.

Gan y bydd mynychder a niferoedd problemau iechyd llygaid yn cynyddu'n ddramatig dros y degawdau nesaf, bydd hi'n bwysig parhau i ail-fantoli gofal o ysbytai i safleoedd gofal sylfaenol fel y nodir yn *Law yn Llaw at Iechyd a Darparu Gofal Iechyd Lleol*.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Weithio gyda Byrddau Iechyd, optometryddion ac offthalmolegwyr i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir yn y lleoliadau sylfaenol a chymunedol, lle bo hynny'n glinigol briodol.

- Annog pobl i fynd at optometryddion sydd wedi'u hachredu i ddarparu'r EHEW.
- Adolygu a datblygu'r EHEW bob blwyddyn a datblygu llwybr ar gyfer syndrom llygaid sych.
- Gweithio gyda fferyllwyr ac optometryddion i ddatblygu'r llwybrau cyflwr llygaid yn y Cynllun Mân Anhwylderau Fferyllfeydd.
- Adolygu'r EHEW a'r llwybrau FOO gofal sylfaenol yng ngoleuni canfyddiadau archwiliadau atgyfeirio er mwyn datblygu rhestr gytûn o atgyfeiriadau priodol ac amhriodol.
- Ystyried rôl Presgripsiynu Annibynnol ar gyfer Optometryddion yn yr EHEW.
- Gweithio gyda'r EHEW ac optometryddion i ddatblygu canlyniadau mwy cyson mewn perthynas ag atgyfeirio rhwng ymarferwyr.
- Gweithio gyda Chanolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru (WOPEC) i ddarparu hyfforddiant i Feddygon Teulu, Fferyllwyr a Nyrsys Practis ar Ofal Llygaid yng Nghymru.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Sicrhau bod Optometryddion, Optegwyr Fferyllol, Fferyllwyr, Nyrsys Practis a Meddygon Teulu yn ymwybodol o lwybrau atgyfeirio gofal llygaid sylfaenol.

- Gweithio gydag optometryddion, offthalmolegwyr, orthoptwyr a meddygon teulu i archwilio atgyfeiriadau o ofal sylfaenol i ofal eilaidd (gofal heb ei drefnu a chleifion allanol).
- Gwasanaethau ysbyty arbenigol

Bydd rhai pobl yn datblygu afiechyd y llygaid a all achosi nam ar y golwg neu ddallineb. Ar ôl eu canfod, caiff y cyflyrau hyn eu trin yn bennaf yn y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty (HES) gan offthalmolegwyr a'u timau. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau hyn yn trin dros 300,000 o gleifion allanol bob blwyddyn; sef ychydig yn fwy na 10% o holl ymweliadau cleifion allanol ag ysbytai yng Nghymru, a gall triniaethau gynnwys meddyginiaethau ar bresgripsiwn, triniaeth laser neu lawdriniaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r data ar gapasiti HES a'r galw amdanynt yn annigonol. O ystyried y ffaith bod mwy a mwy o bobl angen gwasanaethau offthalmoleg, mae'n hollbwysig gwella dulliau casglu data rheolaidd fel bod gwaith cynllunio a dyrannu adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth.

Dylid sicrhau bod triniaeth ar gyflyrau sy'n bygwth y golwg yn dechrau o fewn ychydig wythnosau, a bydd rhaid i lawer o gleifion gael rheolaeth a thriniaeth barhaus. Bydd adolygiad o dargedau er mwyn ymgorffori mesurau ar gyfer pob claf (rhai hen a newydd), sy'n seiliedig ar angen clinigol ac ar y perygl o

golli golwg yn barhaol, yn bwysig er mwyn cynnal a chadw gwasanaethau offthalmoleg o'r radd flaenaf â chapasiti digonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru brosiect llwybrau gofal FOO er mwyn pennu sut y dylid darparu gofal yn yr 21ain ganrif a rhannu arfer gorau mewn perthynas â glawcoma, AMD a gofal heb ei drefnu. Mae canlyniadau allweddol FOO wedi cynnwys cytundeb rhwng yr holl randdeiliaid ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng y gymuned ac ysbytai a chreu timau amlddisgyblaethol er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r holl weithwyr proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael. Yn sgil llwyddiant y prosiect FOO, bwriedir ystyried llwybr gofal integredig ar gyfer cleifion â chataract.

Yn y llwybr glawcoma FOO, mae pobl y credir bod ganddynt glawcoma yn cael eu hasesu a'u rheoli mewn ODTCs arbennig lle gall aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol (nyrsys arbenigol, orthoptwyr, technegwyr ac optometryddion) ddarparu llawer o'r gofal ar gyfer achosion risg isel gydag offthalmolegwyr i gadarnhau'r diagnosis a rheoli trwy glinig "rhithwir". Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu ODTCs ledled Cymru ar gyfer gofal clinigol cost-effeithiol o fewn cyrraedd hawdd i gartrefi cleifion.

Mae timau arbenigol mewn unedau llygaid yn gallu mynd i'r afael â chyflyrau llai cyffredin, er efallai na fydd modd gwneud hyn yn ysbyty agosaf y claf neu hyd yn oed yng Nghymru. Bydd adolygiad o'r ddarpariaeth arbenigol hon yn bwysig er mwyn sicrhau bod cleifion yn

gallu manteisio ar y gwasanaethau priodol yn y lle gorau.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Adolygu targedau ar gyfer offthalmoleg er mwyn ymgorffori mesurau ar gyfer pob claf (rhai hen a newydd) sy'n seiliedig ar angen clinigol ac ar y perygl o golli golwg yn barhaol.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd i ddatblygu systemau ar gyfer gwella dulliau casglu data rheolaidd ar gyfer y galw, capasiti, gweithgarwch ac ôl-groniad mewn HES.
- Adolygu darpariaeth gwasanaethau offthalmoleg arbenigol yng Nghymru ar gyfer cyflyrau prinnach a all fod yn beryglus.
- Ystyried Llwybr FOO ar gyfer cataract.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Gweithio gydag offthalmolegwyr i sicrhau bod pawb sydd â hawl i gael tystysgrif i nodi bod nam ar eu golwg yn cael y dystysgrif honno.
- Casglu, adrodd a monitro capasiti a'r galw am wasanaethau gofal llygaid.
- Sefydlu ODTCs ar gyfer glawcoma.

- Sicrhau bod yna broses dryloyw ar gyfer ystyried a gweithredu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) sy'n cynnwys offthalmolegwyr a chleifion.
 - Gweithio gyda grwpiau o randdeiliaid lleol (gan gynnwys optometryddion, offthalmolegwyr a meddygon teulu) ac Uned Cyflawni a Chymorth (DSU) GIG Cymru i adolygu llwybrau cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben lleol ac yn cyflawni safonau cenedlaethol.
 - Gweithio gyda fferyllwyr i adolygu cydymffurfiaeth â meddyginiaeth glawcoma, gan gynnwys mewn safle cartref gofal.
 - Gweithio gydag offthalmolegwyr er mwyn sicrhau bod pob cyfeiriad at ofal eilaidd yn cael ymateb.
 - Sicrhau cyfeiriadau effeithiol at wasanaethau cymdeithasol gan wasanaeth llygaid ysbyty lle byddai'r unigolyn yn elwa ar asesiad gan swyddog adsefydlu a rhaglen adsefydlu fel sy'n briodol.
- **Cefnogi pobl â nam ar eu golwg/nam ar ddau synnwyr**

Er gwaethaf ymdrechion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, bydd rhai pobl yn datblygu nam ar eu golwg. Gall colli golwg fod yn brofiad trawmatig sy'n cael

effaith sylweddol ar ansawdd bywyd unigolyn, felly mae'n hollbwysig bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal a chymorth o'r radd flaenaf fel y gallant gael bywyd mor heini ac annibynnol â phosibl.

Mae'r gwaith o ddatblygu LVSWS a phenodi Swyddogion Cyswllt Clinig Llygaid (ECLOs) wedi gwella'r cydweithredu rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Fodd bynnag, mae angen parhau i wneud ymdrech i sicrhau cymorth ac adsefydlu di-dor ar gyfer y bobl hynny â nam ar eu golwg. Bydd hyn yn cynnwys cymorth corfforol ac emosiynol.

Mae iselder clinigol ddwywaith mor gyffredin mewn pobl â nam ar eu golwg, felly bydd angen i bawb sy'n cefnogi unigolion sy'n colli eu golwg ddarparu cymorth emosiynol. Gan nad oes tystiolaeth o ba ymyriadau sy'n gweithio orau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, bydd ymarferwyr golwg gwan yn cael eu hyfforddi i sgrinio ar gyfer iselder ac atgyfeirio achosion i feddygon teulu yn unol â chanllawiau NICE.

Bydd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ceisio gweddnwedd y ffordd mae anghenion gofal cymdeithasol pobl o bob oed yng Nghymru yn cael eu diwallu. Dyletswydd awdurdodau lleol, gyda chymorth eu bwrdd iechyd lleol, fydd darparu gwybodaeth a chynghor i unigolion ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn lleol gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y trydydd sector a'r sector cymunedol. Mae Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid (ECLOs) mewn sefyllfa dda i

gefnogi'r broses hon. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno fframwaith asesu a chymhwysedd newydd ar gyfer gofal cymdeithasol.

Nod y fframwaith asesu a chymhwysedd yw lleihau biwrocratiaeth asesiadau hirfaith a sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar wasanaethau ataliol cyflymach yn y gymuned. Bydd angen i bobl â nam sylweddol ar eu golwg, sy'n effeithio ar eu gallu i symud, cyfathrebu neu fyw eu bywydau bob dydd, gael eu hasesu gan swyddog adsefydlu. Os bydd angen, datblygir rhaglen adsefydlu, gyda'r swyddog adsefydlu'n gweithio gyda'r unigolyn, i bennu'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, cyflawni tasgau bob dydd a mynd i siopa ar ei ben ei hun.

Mae angen i ni nodi ffyrdd o sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd llygaid yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau priodol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol sy'n rheoli problemau iechyd llygaid (meddygon teulu, fferyllwyr ac optometryddion) gydweithredu'n well. Y cam cyntaf fydd addysgu meddygon teulu a fferyllwyr ynglŷn â'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael megis profion golwg, yr archwiliad iechyd llygaid, sgrinio retinopat heg diabetig a'r gwasanaeth golwg gwan.

Efallai y bydd gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal llygaid broblemau iechyd eraill (e.e. efallai y bydd y rhai â nam ar eu golwg yn cwmpo'n aml) neu gallai gwasanaethau heblaw gwasanaethau offthalmig fod yn fuddiol iddynt (e.e. gall y rhai sy'n derbyn gwasanaethau

sgrinio retinopat heg diabetig fanteisio ar archwiliadau eraill, megis podiatreg). Caiff y posibil iadau ehangach hyn i integreiddio gofal a gwella iechyd eu harchwilio.

Mae nam ar y golwg yn gallu achosi i bobl syrthio ac mae mynychder yr achosion o nam ar ddau synnwyr yn cynyddu. Felly, bydd hi'n bwysig datblygu llwybrau atgyfeirio dwyffordd o optometreg ac offthalmoleg i glinigau cwympiadau a gwasanaethau awdioleg. Bydd rhaid i offthalmolegwyr ac ymarferwyr golwg gwan sicrhau bod ganddynt lwybrau atgyfeirio da i wasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae ECLOs mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi offthalmolegwyr yn y broses hon.

Gall offthalmolegwyr ardystio person sy'n gymwys i'w gofrestru fel rhywun â nam ar ei olwg. Mae hyn yn bwysig er mwyn monitro canlyniadau gofal iechyd llygaid a gweithredu fel atgyfeiriad o iechyd i wasanaethau cymdeithasol. Mae awdurdodau lleol yn cofrestru pobl yr ardystiwyd fod ganddynt nam ar eu golwg. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth ledled Cymru o ran cofrestru ac ardystio ar hyn o bryd, felly bydd gwaith yn cael ei wneud i leihau'r amrywiad hwn a sicrhau bod pobl o bob cwr o Gymru'n derbyn gwasanaeth cyson. Mae ECLOs mewn sefyllfa dda i gefnogi'r broses hon.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Ddarparu hyfforddiant ar gwympiadau, colli dau synnwyr ac iselder ar gyfer ymarferwyr LVSW.
- Darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr LVSW, gweithwyr adsefydlu, gweithwyr cymdeithasol a staff sector gwirfoddol ar lwybrau atgyfeirio.
- Gweithio gydag LVSW i sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Gweithio gydag AGGCC i sicrhau bod y rhai â nam ar eu golwg sy'n byw mewn gofal preswyl yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.
- Ymgorffori nam ar y synhwyrau i mewn i weithrediaeth y Bil.

Bydd Byrddau Iechyd yn:

- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau cymdeithasol, LVSW a'r trydydd sector o wasanaeth llygaid ysbyty lle byddai'n fanteisiol i'r claf gael ei asesu gan swyddog adsefydlu a, lle'n briodol, rhaglen adsefydlu.
- Sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i LVSW a'r trydydd sector o wasanaeth llygaid ysbyty.

- Gweithio gydag offthalmolegwyr i sicrhau bod pawb sydd â hawl i gael eu cofrestru â nam ar eu golwg yn cael y dystysgrif honno.
- Gweithio gyda'r Cyngorwyr Optometreg Rhanbarthol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, Optometryddion, Offthalmolegwyr, Meddygon Teulu, AGGCC a'r trydydd sector i hyrwyddo LVSU a chynyddu'r defnydd.
- Gweithio gydag LVSU ac optometryddion i sicrhau atgyfeirio dwyffordd rhwng clinigau cwmpïadau ac awdioleg.

Bydd Awdurdodau Lleol yn:

- Cynnig asesiad cymesur, gofal a chymorth sy'n ystyried anghenion y rhai â nam ar eu synhwyrau.
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i ddeall sut mae'r systemau gofal a chymorth yn gweithio yn eu hardal, y mathau o wasanaethau sydd ar gael a sut y gallant fanteisio arnynt.
- Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cymorth, gofal cymdeithasol a lles priodol ac at sefydliadau mewn sectorau eraill, megis y Trydydd Sector.
- Darparu ymyrraeth gynnar.
- Darparu gwasanaeth adsefydlu arbenigol gyda hyfforddiant i helpu i ddefnyddio cymhorthion

golwg gwan, y gallu i symud, cyfathrebu a byw bywyd bob dydd.

- Sicrhau bod staff â'r hyfforddiant a'r cymwysterau priodol ar gael i ddarparu asesiadau a rhaglenni cymorth proffesiynol i'r rhai â nam ar eu synhwyrâu.
- Sicrhau bod y rhai sy'n ymweld â phobl hŷn yn eu cartref (e.e. gweithwyr gofal a gwasanaethau gofal a thrwsio) yn ymwybodol o effaith y gwasanaethau golwg a chymorth sydd ar gael.

Bydd y trydydd sector yn:

- Sicrhau bod pobl â nam ar eu golwg yn ymwybodol o'r ystod lawn o gymorth sydd ar gael iddynt yn y trydydd sector.
- Hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nam ar eu golwg ym mhob agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol.
- Gofyn barn pobl â nam ar eu golwg er mwyn llywio penderfyniadau a dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir.
- Darparu cymorth emosiynol ac ymarferol ar gyfer pobl sy'n cael diagnosis eu bod yn colli eu golwg.
- Gweithio i wella'r ddealltwriaeth o ddarparwyr sector cyhoeddus fel bod pobl â nam ar eu golwg yn gallu manteisio ar yr un cyfleoedd ag eraill.
- Helpu i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd er mwyn cynyddu'r defnydd o wasanaethau.

- Gweithio i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd trwy ddarparu grwpiau cymorth i bobl â nam ar eu golwg.
- Cyfeirio pobl at y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth a lles priodol a ddarperir gan sefydliadau eraill yn y sector a sefydliadau'r trydydd sector.

6. Gwneud i hyn ddigwydd

Mae Grŵp Llywio Gofal Iechyd Llygaid Cymru (Grŵp Llywio), sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan yr holl randdeiliaid allweddol, wedi'i sefydlu. Bydd y grŵp hwn yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gofal iechyd llygaid yng Nghymru ac yn goruchwyllo gwireddu'r Cynllun hwn. Mae'r Grŵp Llywio hefyd yn cael ei gefnogi gan amryw o is-grwpiau/grwpiau gorchwyl a gorffen, gan gynnwys:

- Grŵp Cynghori'r EHEW.
- Cymdeithas y Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Grŵp Gwasanaethau a Manteisio ar Ofal Offthalmig (MEGAFOCUS).
- Grŵp Cynghori LVSU.
- Grŵp Cynghori DRSSW.
- Grŵp Gwasanaeth Golwg Plant Cymru (CVSW).
- Grŵp FOO a HES.
- Grŵp TG.
- Grŵp Ystadegau.
- Grŵp Cyfathrebu.

Bydd y Grŵp Llywio'n adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gofal Llygaid hwn. Bydd yr is-grwpiau a'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyflawni camau gweithredu penodol o'r Cynllun a byddant yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r Grŵp Llywio. Byddant hefyd yn gyfrifol am nodi blaenoriaethau ymchwil.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ystadegau (ST&FG) wedi'i sefydlu i ddatblygu'r data a'r wybodaeth mewn perthynas â gofal llygaid. Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol cyntaf ar wasanaethau gofal llygaid ar 5 Mehefin 2013. Mae'r Datganiad hwn, sef "Ystadegau Offthalmig yng Nghymru", wedi'i ehangu i gynnwys ystadegau ar rannau eraill o'r gwasanaeth gofal llygaid yng Nghymru, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth gryno am ddata'r Gwasanaeth Offthalmig Cenedlaethol a data'r gweithlu.

Bydd yr ST&FG yn cyflawni gwaith pellach i ddatblygu ehangder y wybodaeth yn y Datganiad Ystadegol hwn. Bydd y Grŵp hefyd yn datblygu ystod o fesurau canlyniadau.

7. Cyfeiriadau

- 1) Access Economics, Future Sight Loss UK 1: The economic impact of partial sight and blindness in the UK adult population (RNIB, 2009).
- 2) Ystadegau Gofal Llygaid ar gyfer Cymru, 2012-13 (Llywodraeth Cymru, 2013).
- 3) Tate, R., Smeeth, L., Evans, J., Fletcher, A., (2005) The prevalence of visual impairment in the UK; A review of the literature.
- 4) Evans, JR., Fletcher, AE., Wormald, RP., (2007) Depression and anxiety in visually impaired older people, Ophthalmology, Chwefror 2007 114(2):283-288.
- 5) Legood, R., Scuffham, P., Cryer, C., (2002) Are we blind to injuries in the visually impaired? A review of the literature, Injury Prevention 8:155-160.